# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 11/10/2017 Ysgol Nefyn am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gruffydd Williams | Sian Hughes | Sharon Williams | Catrin Roberts | Alan Griffiths |
| Bethan Williams | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Arfon Hughes, Rhys Tudur, Anderw Owen, Bleddyn Evans.
   Griffith Williams a Gwynfor Jones ddim wedi derbyn yr agenda.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio
   Sian Hughes – Ceisiadau Cynllunio gan ei bod yn Aelod Lleol
   Bethan Williams – Perthyn i ymgeisydd Cais cynllunio C17/0555/42/LL

3. **Cofnodion 12/09/2017 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Seddi Gwag**
   Rhian Hughes-Jones (Clerc) wedi gosod hysbyseb yn Siop Siarad, Nefyn i hysbysu sedd wag yn Nefyn a Siop, Morfa Nefyn yn hysbysu swydd Morfa Nefyn. Dyddiad cau 31 Hydref 2017
   Sian Hughes a Gruff Williams gyda rhywun gyda diddordeb ac am basio'r wybodaeth ymlaen a'i annog i gysylltu hefo'r clerc cyn gynted a bod modd.

5. **Traethau Nefyn a Morfa Nefyn**
   Yn dilyn gwahodd Barry Davies a Bryn Prichard-Jones i'r cyfarfod; Mae Barry Davies wedi mynychu.
   Fel rhan o arbedion Cyngor Gwynedd mae rheolaeth Traethau yn cael toriadau. Mae hyn yn golygu ni fydd Cyngor Gwynedd yn cynnal traethau baner las fel Nefyn a Morfa Nefyn.
   Eleni cafwyd mesuriadau interim i bontio; Cyngor Gwynedd yn cyfrannu £5000 a Chyngor Tref Nefyn yn cyfrannu £5000 i reoli'r traethau 6 diwrnod yr wythnos yn Nefyn a saith diwrnod yr wythnos yn Forfa Nefyn.
   Nodwyd bod y gweithwyr unigol Thomas a Gareth wedi gwneud gwaith ardderchog dros yr haf a bod Cyngor Tref yn ddiolchgar iawn iddynt.
   Er hyn Mae'r Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd yn siomedig iawn o'r gamdriniaeth roedd y ddau yn ei dderbyn. Bu bron i Gyngor Gwynedd dynnu'r gweithwyr o'r swyddi achos o'r gamdriniaeth roeddent yn derbyn gan aelodau o'r cyhoedd ac yn siomedig iawn gan aelodau o'r gymuned. Bu rhaid llenwi ffurflenni HS11 yn y gwaith i gofnodi trais.
   Parcio – Mae parcio yn bryderus yn enwedig yn dilyn y sefyllfa yn Forfa Nefyn yn ystod gŵyl y banc lle'r oedd ceir wedi eu gadael yn bob man yn Forfa Nefyn.
   Arwyddion – Wedi ei gosod ac yn weithredol
   Cabanau – Cabanau wedi ei fandaleiddio yn anffodus. Nid oedd bosib agor drws caban Morfa Nefyn gan ei fod wedi ei ludo ar gae a hefo pren wedi ei wthio trwy'r clo. Bu rhai ei ddinistrio er cael mynediad.
   Beth yw'r cynllun amgen sydd gan Gyngor Tref Nefyn i'r dyfodol? Bydd Cyngor Gwynedd ddim yn rhan o'r drafodaeth i'r dyfodol.
   Sian Hughes a Gruff Williams am ddilyn i fynnu hefo'r Ymddiriedolaeth a Mandy Davies i gael cadarnhad o be sydd yn digwydd i'r dyfodol. Gan nad oes dim byd yn gyllideb Cyngor Gwynedd I draethau Nefyn a Morfa Nefyn.
   Beth yw'r effaith ar ddiogelwch – Bydd angen rhoi pwysau ar yr ymddiriedolaeth a Chyngor Gwynedd am gymorth.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Mae twristiaid yn dechrau mudo o’r ochr ddeheuol o Llyn I’r gogledd. Sydd yn achosi problemau mawr fel y gwelir yn ystod gŵyl y banc mis Awst eleni. Yfed ar y traethau ac ar y cychod.
Nid yw’r bad achub yn gyfrifol ar y traethau. Ond mae Liz Saville yn gobeithio cael y bad achub i helpu rheoli’r môr. Mae Porthdinllaen wedi ei ddynodi fel harbwr ac mae hyn yn ei galluogi i weithredu is-ddeddfau cyflymdra uchaf yn Nefyn a Morfa Nefyn.
Ddylid gwahodd y bad achub i’r trafodaethau hefyd yn ogystal ag aelod cabinet (Ioan Thomas)
Mae Barry Davies yn gobeithio gellir Cyngor Gwynedd weithio hefo Cyngor Tref Nefyn ar Ymddiriedolaeth I’r dyfodol.
Mae Cyngor Gwynedd wedi gwrthod derbyn y les gan y Goron gan ei fod yn gostau ychwanegol ac mae trafodaethau yn mynd ymlaen.

Pwysig trefnu llythyr i’r perchnogion tir yn eu hatgoffa eu bod yn gyfrifol am y tir i lawr at y traeth. Oes ganddynt yswiriant priodol? Mae scaffolding wedi ei adael yno dros y gaeaf ac mae hyn yn bryder iechyd a diogelwch.

**6. Llwybrau**

Diweddariad gan Sian Hughes
Trem y Garn – Ysgol Morfa Nefyn – Rhaid I’r datblygwyr ddarparu llwybr addas i’r ysgol fel y nodwyd yn ddyfarniad cynllunio.
Sian Hughes wedi mynd ar ôl adran gorfodaeth Cyngor Gwynedd (Gwyn Evans ac Aneurun Mon Parry) eto i wneud yn siŵr eu bod yn darparu llwybr yn unol â’r cytundeb. Mae’r adran yn cefnogi hyn.

**7. Toiledau**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones –
Mae Rhian Hughes-Jones wedi cysylltu hefo’r cyngor; Glanhawr sydd yn cloi'r toiledau gyda nos a chadarnhaf fod y goleuadau yn gweithio hefo amserydd. Nid yw toiledau anabl yn cael eu cloi.
Awgrymir bod aelodau’r cyngor yn nodi amser a lleoliad os yw golau ymlaen yn y nós.

**8. Awdit BDO**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones
Rydym wedi derbyn gwybodaeth yn ol gan BDO ac wrthi yn palu trwyddo. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn cyfarfod nesaf gobeithio.

**9. Grwp Cynefin**

Gohirio at cyfarfod mis Tachwedd I gael barn mwy o aelodau.

**10. Y Ddól**

Diweddariad gan Gruffydd Williams –
Nodwyd bod y pwyllgor cynllunio wedi ei ohirio i fynd ar ymweliad safle.
Nodwyd bod rhai aelodau o’r cyhoedd wedi gofyn i’r Cyngor Tref gefnogi’r cais cynllunio gan eu bod yn gobeithio cael byngalo gan eu bod eisiau symud i dŷ llai.
Mae Swyddogion wedi nod bod y tir ar gael er ei fod yn safle gwyrdd.
Cytunwyd i Rhian Hughes-Jones gyda chymorth Gruff Williams gysoni holl wybodaeth rhandiroedd a threfnu llythyrau safonol i ymateb i ymholiadau am randir neu restr aros.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**11. Meinciau**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones –

Wedi darparu llythyrau safonol gyda chanllawiau ar y math o fainc sydd yn dderbyniol. Cytunwyd I yrru'r rhain ymlaen i Gruff Williams yw gwyro cyn ei gyrru allan

Nodwyd bod mainc wedi ei osod ar Lon Gam – bydd angen edrych I fewn I hyn.

**12. Safle Ail Gylchu, Ffordd dewi Sant**

Gruff Williams wedi derbyn llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi bod Cyngor Gwynedd yn hapus i adael y biniau ail gylchu yn y safle ar Ffordd Dewi Sant.

Angen cadarnhau nad yw'r Cyngor Tref yn fodlon hefo hyn.

**13. Cyfrifon y Cyngor**

Yn dilyn cyfarfod 12/09/2017 roedd arian wedi ei symud i gyfrif anghywir sydd wedi achosi i nifer o sieciau cael ei gwrthod gan y banc.

Mae Rhian Hughes-Jones wedi cysylltu i wybyddi ac ymddiheuro i bawb roedd wedi ei effeithio ac wedi datrys y sefyllfa. Mae Rhian Hefyd wedi gofyn i unrhyw gwmni / berson sydd wedi cael ei effeithio yn ariannol o ganlyniad i hyn i gysylltu yn ôl.

Mae Rhian Hefyd wedi gofyn i gael cysoni'r holl gyfrifon sydd gan y cyngor a thrio ffeindio ffordd well fel bod hyn ddim yn digwydd i'r dyfodol.

Nodwyd efalla'i buasai Dafydd Rhun yn gallu helpu i ddatrys y cyfrifon. Rhian i gysylltu.

**14. Pwyllgor Calan Gaeaf**

Penderfynwyd penodi Catrin Roberts, Sharon Williams a Bethan Williams i bwyllgor Calan Gaeaf y Cyngor.

Cadarnhawyd Sharon fod £300 wedi ei dderbyn mewn grant gan yr heddlu i gynnal parti calan gaeaf.

Nodwyd bod yr arian yma yn y gorffennol yn cael ei rhannu rhwng y 3 cymuned; £100 yr un.

Penderfyniad hanesyddol oedd cymryd tro yn derbyn yr arian a Morfa Nefyn dylai'i wedi ei dderbyn llynedd, Edern eleni a Nefyn blwyddyn nesaf. Penderfynwyd gan fod y sefyllfa bellach yn byr rybudd dylai'i chynnal y parti Calan Gaeaf yn y ganolfan yn Nefyn.

Hefyd gan fod y grant gan yr heddlu nid yw'n bosib gwneud unrhyw elw o'r dathliadau, mae parti wedi ei drefnu eisoes yn Forfa Nefyn i hel arian at yr ysgol feithrin.

Wrth gwrs parti i'r ardal eang yw hon gyda chroeso i bawb.

**15. Pwyllgor Nadolig**

Penderfynwyd penodi Sharon Williams a Bethan Williams i bwyllgor Nadolig y Cyngor.

Gan fod Bethan yn gadeirydd Cymdeithas y Rhieni yn ysgol Nefyn mae hyn yn ein galluogi i gyd weithio yn hawdd gwneud un noson arbennig.

Mae Edern a Morfa Nefyn eisoes wedi darparu gweithgareddau ar noson wahanol fel bod pawb yn gallu gwneud y gorau o bob noson.

**16. Clirio dogfennau hanesyddol**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones –

Bydd rhaid gohirio'r clirio gan mai dim ond 3 oedd wedi gwirfoddoli. Cynigir bod aelodau yn mynd yno ar liwt ei hun i wneud y gwaith yn achlysurol.

Bydd Rhian Hughes-Jones yn trefnu dyddiad eto cyn diwedd y mis.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**17. Defibrillator Edern**

Diweddariad gan Sian Hughes –
Nodwyd na ellir cloi giât yr ysgol gan fod y defibillator ar dir yr ysgol. Mae hyn yn achosi problem hefo'r yswiriant. Mae plant yn gallu dod ar dir yr ysgol i chware ar yr offer; ond nid yw'r yswiriant yn cynnwys hyn.
Mae Bleddyn Evans wedi nodi ei fod am symud yr offer i'r ganolfan yn Edern o fewn y mis.

**18. Rheolau'r Cyngor**

Nid yw Bwyllgor Rheolau wedi cael cyfle i gyfarfod. Gobeithio cael dyddiad mis Tachwedd.

**19. Llyfrgell**

Dim diweddariad

**Ceisiadau Cynllunio**

**C17/0555/42/LL** – Estyniad. Ty Cerrig, Mynydd Nefyn, Nefyn.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C17/0942/42/AM -** Datblygiad preswyl o hyd at 23 o dai gyd 50% ohonynt yn dai fforddiadwy. Tir ger Maes Twnti, Morfa Nefyn.
**Gwrthwynebu – Mae'r safle bellach tu allan I ffin datblygu – rhaid iddo fod yn 100% fforddiadwy**

**C17/0882/42/LL -** Newid defnydd siop i ffurfio fflat. The Laundrette, Stryd Fawr, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C17/0948/42/TC -** Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithiol bwriedig ar gyfer adeiladu ffenestr gromen. Maes Y Ddol, Stryd Y Plas, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**Ceisiadau am gyfraniad**

1. Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol
2. Clwb Hoci Pwllheli
3. Grŵp mynediad Dwyfor

Bydd Ceisiadau am gyfraniad yn cael ei deli gyda diwedd y flwyddyn.

**Gohebiaeth**

1. Un Llais Cymru – Bwletin Medi 2017 & Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Rheoli adnoddau naturiol Cymru yn Gynaladwy & Hyfforddiant Hydref
2. SLCC - Bwletin Medi 2017
3. Local Council Update – Mis Medi a Hydref
4. Emyr Wyn Jones – Cynnig gwasanaeth, Contractwr Torri gwellt
5. Annual Return– Playing Fields and Recriation Ground
6. Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol Ysgolion Gwynedd – Cyngor Bro a Thref – Enwebu cynrychiolydd
7. Awdurdodau Claddu – Arolwg Cyngor Tref

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**Taliadau wedi cael ei cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc** a **PAYE** Medi | **£726.93** |
| **BACSTAL** – Gwasanaeth taliadau | **£99.60** |
| **Ashley Hughes** – Nwyddau | **£75.66** |
| **Adran Democratiaeth a Chyfreithiol CG –** Costau Etholiad | **£366.00** |
| **Clif Hughes** – Ail daliad contract 2017-2020 | **£1100.00** |
| **PWLB** – UK debt management Office | **£576.44** |

**Ôl Nod**

**Pensiwn y Clerc –** Arfon Hughes am edrych i mewn i hyn.